City and County of Swansea

# Minutes of the Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Addysg a Sgiliau

**Ystafell Bwyllgor 1, Canolfan Ddinesig, Abertawe**

**Dydd Mercher, 13 Medi 2017 at 4.00 pm**

**Present**: Councillor R V Smith (Cadeirydd) Presided

| **Councillor(s)** | **Councillor(s)** | **Councillor(s)** |
|---|---|---|
| F M Gordon | L R Jones | M A Langstone |
| M B Lewis | S Pritchard | K M Roberts |
| M Sykes | D W W Thomas | |

**Officer(s)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Helen Morgan - Rees | Hub Head of Education Improvement |
| Chris Sivers | Cyfarwyddwr Pobl |
| Nick Williams | Chief Education Officer |

**Apologies for Absence**
Councillor(s): S E Crouch a/ac B Hopkins

---

## 13 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 14 Cofnodion.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 15 Amlinelliad o'r Sefyllfa Addysg Bresennol. (Cyflwyniad)

Rhoddodd y Prif Swyddog Addysg a Phennaeth Gwella Addysg yr Hwb dros Abertawe/Castell-nedd gyflwyniad i'r Pwyllgor a oedd yn rhoi trosolwg cynhwysfawr a llawn gwybodaeth ar amlinelliad a chefndir tirwedd addysg Abertawe ar hyn o bryd.

Fel rhan o'r cyflwyniad, amlinellwyd a chyfeiriwyd at y meysydd canlynol:

- Rôl gyffredinol yr awdurdod lleol: Hyrwyddo safonau addysg, datblygiad pobl ifanc a chanlyniadau gwell, cynllunio lleoedd mewn ysgolion, cyllido ysgolion;
- Cyfrifoldebau cyffredinol yr awdurdod lleol: Wedi'u rheoli gan Ddeddf Addysg 1996;

- Cyfrifoldebau cyffredinol yr awdurdod lleol: Gofyniad i ddarparu ysgolion digonol, pŵer mewn perthynas ag addysg ôl 16 oed a darpariaeth anghenion addysgol arbennig;
- Dadansoddiad o rôl yr awdurdod lleol: Lleoedd mewn ysgolion, Cyfnod Sylfaen, EOTAS - darpariaeth bresennol a chynigion newydd, y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'i brif oblygiadau ar gyfer yr awdurdod lleol a'r ysgolion ar ôl 2019, cludiant i'r ysgol, gwaharddiadau, asesu'r cwricwlwm, Addysg Grefyddol a phrydau ysgol;
- Dadansoddiad o rôl yr awdurdod lleol: Cyllid ysgol, penodi a hyfforddi llywodraethwyr ysgolion, safleoedd ac adeiladau ysgol, rôl arolygu/ymyrryd, staffio, dyletswyddau statudol amrywiol;
- Rôl statudol y Prif Swyddog Addysg: Wedi'i rheoli gan Ddeddf Addysg 1996, cyfrifoldeb am ysgolion ac addysg, pwerau ymyrryd;
- Rôl ERW: Gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol, arweinwyr Dysgu Digidol, Cwricwlwm i Gymru, cefnogaeth a her i ysgolion;
- Amcanion Llesiant: 5 blaenoriaeth - Diogelu, gwella addysg a sgiliau, trawsnewid economi ac isadeiledd, mynd i'r afael â thlodi a thrawsnewid a'r cyngor yn y dyfodol, goblygiadau'r fargen ddinesig a diffyg sgiliau lleol posib a'r angen i sicrhau bod cyrsiau prentisiaeth, cyrsiau analwedigaethol etc yn cael eu hysbysu a'u hannog yn well i bobl ifanc fel bod anghenion economaidd y ddinas yn cael eu diwallu wrth fynd ymlaen, cefnogaeth emosiynol i ddisgyblion;
- Cwricwlwm i Gymru/Cwricwlwm am Oes:Bydd trefn newydd lle bydd cymhwysedd digidol yn derbyn yr un statws â rhifedd a llythrennedd, pwyslais ar ddysgu digidol a chymhwyso sgiliau, defnyddio bywyd go iawn fel cyd-destun a gweithio mewn partneriaeth;
- Rôl Estyn: Arolygu, adolygu a herio ysgolion, adolygiadau ac adroddiadau thematig a phynciau STEM.

Trafododd y pwyllgor y materion a godwyd ac a amlinellwyd gan y swyddogion uchod a gofynnodd gyfres o gwestiynau a oedd yn canolbwyntio ar y meysydd pwnc canlynol. Ymatebodd y swyddogion yn unol â hynny: -

- Goblygiadau'r fargen ddinesig a'r angen dybryd i fynd i'r afael â'r diffyg sgiliau'n lleol;
- Mae hyrwyddo ac ehangu addysgu a chyrsiau Cymhwysedd Digidol a Gwyddoniaeth Gyfrifiadurol mewn ysgolion yn hanfodol;
- Yr angen i ehangu ac annog cyrsiau "digidol" ar gyfer dysgwyr sy'n oedolion;
- Yr angen i ddiweddaru hyfforddiant cychwynnol i athrawon, yn enwedig wrth ystyried Gwyddoniaeth Gyfrifiadurol fel mater o frys (gwahodd Prifysgol y Drindod Dewi Sant i gyfarfod ychwanegol er mwyn trafod y mater);
- Yr angen am hyfforddiant digidol/cyfrifiadurol a gwella sgiliau'r athrawon presennol, a'r potensial am "Hyrwyddwr Digidol" ym mhob ysgol;
- Yr angen i athrawon mewn ysgolion rannu eu harbenigedd "digidol" â'u cydweithwyr;
- Mae angen rhannu arfer da a syniadau rhwng ysgolion;
- Yr angen i ddatblygu cyflwyniad byr ar ffurf fideo o'r fargen ddinesig i'w ddangos mewn nosweithiau rhieni mewn ysgolion, annog a hyrwyddo pobl ifanc a rhieni am y rhagolygon gyrfa/swydd dda sy'n codi o ganlyniad i gymryd

rhan mewn cynlluniau prentisiaethau a chyrsiau galwedigaethol er mwyn ennill cymwysterau "masnach";

- Bydd angen i adborth a phrofiadau ysgolion arloesi gael eu rhannu ag ysgolion eraill;
- Effaith bosib y Cwricwlwm am Oes newydd, lle bydd cymhwysedd digidol yn derbyn yr un statws â rhifedd a llythrennedd;
- Prinder athrawon ar draws Cymru ar hyn o bryd, mewn swydd a hyfforddiant (gwybodaeth am niferoedd Abertawe i'w darparu i'r aelodau);
- Yr angen i ddatblygu'r cysylltiadau presennol rhwng ysgolion a busnesau/diwydiant lleol ymhellach a'u hehangu.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am eu cyflwyniad addysgiadol.

**Penderfynwyd** y dylid nodi'r cyflwyniad.

**16 Cynllun Gwaith 2017 - 2018.**

Amlinellodd y Cadeirydd y cynllun gwaith ar gyfer y pwyllgor a gweddill blwyddyn ddinesig 2017/2018.

**Penderfynwyd** nodi'r cynllun gwaith fel ei amlinellwyd, yn ogystal â gwahodd Prifysgol y Drindod Dewi Sant i gyfarfod yn y dyfodol er mwyn trafod darpariaeth Hyfforddiant i Athrawon, yn enwedig agwedd Gwyddoniaeth Ddigidol/Gyfrifiadurol yr hyfforddiant.

The meeting ended at 5.00 pm

**Chair**